Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

# Cynorthwyo â Phontio trwy Borth Digidol Hygyrch

Rebecca Hughes, Rheolwr Cyngor ac Arweiniad Myfyrwyr, Prifysgol Wrecsam

Rachel Jones, Rheolwr Cymorth Gweithredol Gwasanaethau Cynhwysiant, Prifysgol Wrecsam

## Cefndir a chyd-destun

Mae gan Brifysgol Wrecsam boblogaeth amrywiol o fyfyrwyr gan gynnwys cyfran uchel o fyfyrwyr sydd y cyntaf yn y teulu i gael mynediad at addysg uwch (AU) neu sy'n dychwelyd i addysg ar ôl cyfnod yn gweithio. Felly, mae'r broses o bontio i AU yn hynod bwysig i sicrhau bod unigolion yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac yn gallu ymgymryd ag astudiaeth lefel uwch. Roedden ni'n ymwybodol bod llawer iawn o wybodaeth ar gael i'n hymgeiswyr a'n myfyrwyr, ond nad oedd hi'n hawdd dod o hyd iddi i gyd; roedd rhywfaint ond ar gael trwy ddefnyddio manylion mewngofnodi a ddarparwyd gan y Brifysgol, neu dim ond ar ôl i'r myfyriwr ymrestru. Yn ogystal, roeddem yn ymwybodol o'r swmp enfawr o wybodaeth a ddarperir i fyfyrwyr yn ystod yr Wythnos Groeso, ac roeddem am leihau'r potensial i hyn fod yn llethol trwy sicrhau bod amrywiaeth o wybodaeth ddefnyddiol ar gael cyn i fyfyriwr ddechrau ei astudiaethau.

Yn 2023-24 dechreuodd timau Bywyd Myfyrwyr a Champws ddefnyddio *Target Connect* fel eu system rheoli perthynas â chwsmeriaid (CRM). Mae *Target Connect* yn blatfform digidol lle gall staff storio nodiadau ar achosion a manylion apwyntiadau, ond gyda swyddogaeth porth y gellir ei haddasu i rannu gwybodaeth ac adnoddau. Yn ystod ein defnydd cynnar o *Target Connect*, daethom i sylweddoli y gellid defnyddio'r platfform fel ffordd o rannu amrywiaeth eang o wybodaeth gyda myfyrwyr.




## Datblygu banc adnoddau ar gyfer pontio

Gan gydweithio ag adrannau ar draws y Brifysgol, fe wnaethom greu porth 'Bywyd Myfyrwyr' ar *Target Connect* i gynnwys gwybodaeth am brofiad myfyrwyr i gynorthwyo â'r broses bontio i'r Brifysgol ar gyfer myfyrwyr newydd. Blaenoriaethwyd profiad y myfyrwyr a grwpio gwybodaeth fesul thema yn hytrach nag yn ôl timau neu adrannau o fewn y Brifysgol. Cyfarfu timau gwasanaethau proffesiynol i benderfynu ar themâu neu 'lwybrau' allweddol, gan ddefnyddio data o weithgarwch ymgysylltu wrth ein Desg Gymorth Myfyrwyr. Wrth ddatblygu'r porth a chasglu deunydd ynghyd ar gyfer llwybrau, fe wnaethom gynnwys deunyddiau rhyngweithiol, cwisiau a fideos i wneud yr adnoddau mor ddiddorol â phosibl.



Mae llwybrau cyfredol yn cynnwys:

- Sut Byddaf yn Cael Fy Asesu?
- Cyllido ac Arian Myfyrwyr
- Pecynnau Cymorth - Cymorth wedi'i Dargedu
- Ein Disgwyliadau ohonoch Chi fel Myfyriwr
- Bywyd Myfyrwyr ar Gampws Wrecsam
- Beth i'w Wneud Os Nad Yw Pethau Wedi Mynd yn ôl y Cynllun
- Cadw'n Iach yn y Brifysgol
- Geirfa a Thermau Cyffredin y Brifysgol

Mae'r adnoddau hyn wedi'u hanelu at ymgeiswyr sy'n chwilio am ragor o wybodaeth cyn iddynt ddechrau eu hastudiaethau. Mae yna hefyd opsiwn ar gyfer rhieni a gofalwyr, neu unrhyw drydydd parti sy'n ymwneud â chefnogi ymgeisydd, er mwyn iddynt allu cofrestru a chael mynediad at yr adnoddau. Mae myfyrwyr cofrestredig yn defnyddio'r platfform *Target Connect* i ymgysylltu â gwasanaethau Bywyd Myfyrwyr a Champws, a gallant hefyd gael mynediad at y wybodaeth a'r adnoddau ar borth Bywyd Myfyrwyr.

Mae gan staff fynediad i'r platfform hefyd, fel y gall y rhai sy'n delio'n uniongyrchol â myfyrwyr ehangu eu gwybodaeth, ac yna a rhannu'r wybodaeth honno gydag ymgeiswyr neu fyfyrwyr.

**Edrych tua'r dyfodol**

Rydym yn rhagweld y bydd porth Bywyd Myfyrwyr yn cael effaith gadarnhaol ar argaeledd a mynediad at wybodaeth allweddol i bob rhanddeiliad. Mae'r wybodaeth wedi'i chasglu o wahanol ffynonellau a thimau'r Brifysgol, gan ddarparu mwy o welededd i gynorthwyo â phontio i AU yn well ynghynt yn nhaith ein hymgeiswyr i ymrestru. Bydd y porth dwyieithog yn cael ei lansio'n ffurfiol yn ystod haf 2025, ond mae'r wybodaeth wedi bod ar gael ers peth amser yn dilyn lansiad meddal rai misoedd yn ôl. Dros y cyfnod hwn, mae defnyddwyr wedi'u gwahodd i gael mynediad at yr adnoddau sydd ar gael; 'Beth i'w Wneud Os Nad Yw Pethau Wedi Mynd yn ôl y Cynllun' a 'Geirfa a Thermau Cyffredin y Brifysgol' yw'r llwybrau mwyaf poblogaidd ymysg defnyddwyr ar hyn o bryd.

Gan fod y system yn caniatáu mynediad uniongyrchol at ddata myfyrwyr o'r system ganolog ar gyfer cofnodion myfyrwyr, bydd y Brifysgol yn gallu dadansoddi ac ymateb yn well i dueddiadau mynediad. Y bwriad yw monitro defnydd a mynediad at lwybrau i lywio ein datblygiad o adnoddau a'r cyfathrebiadau sydd gennym â'n dysgwyr AU newydd.

Y nod yw meithrin annibyniaeth ac ymdeimlad o rymuso ymysg ein myfyrwyr newydd trwy ddefnyddio'r system hon, er mwyn caniatáu iddynt deimlo'n fwy parod ar gyfer eu cwrs, heb deimlo eu bod yn cael eu llethu yn ystod y cyfnod pontio wrth ddechrau yn y brifysgol.

Am ragor o wybodaeth ewch i: [bywydmyfyrwyr.wrecsam.ac.uk](bywydmyfyrwyr.wrecsam.ac.uk)




Mae'r astudiaeth achos hon wedi'i chynhyrchu a'i rhannu fel rhan o brosiect QAA Cymru a ariennir gan Medr: Galluogi dysgwyr i symud ymlaen i addysg uwch a gwneud cynnydd.

Gallwch ganfod mwy am y prosiect ar wefan QAA Cymru.